| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD** | **9 Mehefin 2025** |
| **TEITL** | **Datgan a chofrestru buddiannau mewn cyfarfodydd** |
| **AWDUR** | **Siôn Huws, Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau** |
| **GWEITHREDU** | **Er gwybodaeth** |

**Cefndir**

1. Mae'r Cod Ymddygiad i Aelodau yn rhoi dyletswydd ar aelodau ddatgelu ar lafar gerbron unrhyw gyfarfod, fodolaeth a natur unrhyw fuddiant personol sydd ganddynt mewn busnes sy'n cael ei ystyried. Mae dyletswydd pellach i gofrestru'r buddiant hwnnw drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r Swyddog Monitro sy'n cynnwys (a) manylion y buddiant personol, (b) manylion y busnes y mae'r buddiant personol yn ymwneud ag ef, a (c) llofnod. Yng Nghyngor Gwynedd pan fydd aelod yn datgan mewn cyfarfod pwyllgor bydd swyddog gwasanaethau democrataidd yn rhoi ffurflen bapur iddo/i, ac yn ei chasglu ar ddiwedd y cyfarfod.

2. Erbyn hyn caiff aelodau fynychu cyfarfodydd o bell. Mae dosbarthu ffurflenni i'r aelodau hynny sy'n ymuno yn rhithiol, a cheisio sicrhau eu bod eu dychwelyd yn golygu cryn dipyn mwy o waith i'r swyddogion. Mae cwblhau a dychwelyd ffurflen (drwy'r post, drwy law neu drwy sganio ac e-bostio) yn llawer mwy trafferthus i aelodau hefyd.

3. Rydym felly, gyda'r Gwasanaethau Democratiaeth a TG, wedi creu proses i gofrestru buddiannau ar-lein, gan ddefnyddio adnodd Microsoft Forms sydd eisoes gan y Cyngor. Unwaith y bydd aelod wedi datgan buddiant dilynir y broses ganlynol:

1) Swyddog yn anfon e-bost yn cynnwys dolen at yr aelod yn ystod y cyfarfod.
2) Aelod yn clicio'r ddolen a chwblhau a chyflwyno'r ffurflen ar-lein (gweler Atodiad am fersiwn brawf)
3) Y manylion yn cael eu cofnodi ar system iGwynedd (MS Sharepoint) y Cyngor ar gyfer y Gofrestr Buddiannau. Maer' safle iGwynedd yma o dan reolaeth y Swyddog Monitro. Cynhyrchir fersiwn PDF o'r ffurflen hefyd.
4) Y Gwasanaeth Democratiaeth yn derbyn e-bost i gadarnhau cwblhau'r ffurflen.
5) Aelod yn derbyn e-bost cadarnhad yn cynnwys linc 'darllen yn unig' i fersiwn PDF o'r ffurflen mae newydd gwblhau. Mi fydd blwch post Priodoldeb@gwynedd.llyw.cymru (sydd o dan reolaeth y swyddog Monitro) yn derbyn copi o'r e-bost yma hefyd.
6) Swyddogion democratiaeth yn cofnodi'r buddiant ar system Modern Gov fel ei fod yn ymddangos ar dudalen gwefan yr aelod (hyn yn digwydd eisoes)
7) Monitro ymatebion ac atgoffa aelodau sydd heb gwblhau'r ffurflen.

4. Y bwriad yw defnddio'r drefn yma ar gyfer pob aelod sy'n datgan, gan cynnwys y rhai sy'n bresennol yn yr ystafell gyfarfod. Rhagwelir y gellir cyflwyno'r broses ar gyfer cyfarfod y Cyngor Llawn ym mis Gorffennaf.

**Argymhelliad**

5. Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn a nodi cynnwys yr adroddiad